# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Gorffennaf 2020

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi:

(14.00) (Tudalennau 1 - 6)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2020

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2020

**2.1 PTN1 - Llythyr gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cymraeg at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol - Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 - 17 Mehefin 2020**

(Tudalennau 7 - 9)

**2.2 PTN2 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Cyfarfodydd pedrochrog y Gweinidogion Cyllid - 19 Mehefin 2020**

(Tudalen 10)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21: Pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod ar 4 Mehefin 2020 - 22 Mehefin 2020**

(Tudalennau 11 - 12)

2.4 PTN4 – Llythyr gan y Gweinidog Addysg – Cyllid ADY ychwanegol ar gyfer y sector Addysg Bellach – 23 Mehefin 2020

(Tudalennau 13 - 14)

2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd – Polisi buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit – 25 Mehefin 2020

(Tudalennau 15 - 16)

2.6 PTN 6 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd – Cronfa Wrth Gefn y DU – 3 Gorffennaf 2020

(Tudalen 17)

2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Ganghellor y Trysorlys: Diweddariad economaidd yr haf – 3 Gorffennaf 2020

(Tudalennau 18 - 22)

2.8 PTN 8 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru at Ganghellor y Trysorlys: Y Cynllun Cadw Swyddi a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig – 4 Mehefin 2020

(Tudalennau 23 - 24)

2.9 PTN9 – Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Meddalwedd Deddfwriaeth – 7 Gorffennaf 2020

(Tudalennau 25 - 27)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4, 5, 6, 7, 8 a 10

(14.05)

## 4 Ymchwiliad i broses cyllideb ddeddfwriaethol: Trafod yr adroddiad drafft

(14.05-14.20) (Tudalennau 28 - 58)

**Papur ategol:**

Papur 1 – Adroddiad drafft

## 5 Penodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

(14.20–14.30) (Tudalennau 59 - 61)

**Papurau ategol:**

Papur 2 - Adroddiad drafft

Papur 3 – Llythyr gan y Prif Weinidog – Trefniadau tâl ar gyfer Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru – 22 Mehefin 2020

Papur 4 – Llythyr gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Llywodraeth Cymru – Trefniadau tâl ar gyfer Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru – 25 Mehefin 2020

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021–22: Dull o gynnal gwaith craffu

(14.30–14.40) (Tudalennau 62 - 78)

**Papurau ategol:**

Papur 5 - Dull o gynnal y gwaith craffu

Papur 6 – Llythyr ymgynghori drafft

Papur 7 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Amseriad Cyllideb Ddrafft 2021–22 – 2 Gorffennaf 2020

Papur 8 – Llythyr gan y Pwyllgor Busnes – Amserlen arfaethedig ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2021–22– 8 Gorffennaf 2020

## 7 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(14.40–14.50) (Tudalennau 79 - 83)

**Papur ategol:**

Papur 9 - Blaenraglen waith: yr hydref

## 8 Trafod ymatebion gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol: Effaith ariannol pandemig COVID–19

(14.50–15.00) (Tudalennau 84 - 98)

**Papurau ategol:**

Papur 10 – Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – 3 Gorffennaf 2020

Papur 11 – Llythyr gan Gomisiwn y Senedd – 7 Gorffennaf 2020

Papur 12 – Llythyr gan Archwilio Cymru – 7 Gorffennaf 2020

**EGWYL (15.00–15.15)**

## 9 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Rt. Hon Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

(15.15–16.15) (Tudalennau 99 - 118)

Rt. Hon Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfansoddiad, Swyddfa Cymru

**Papurau ategol:**

Papur 13 – Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru - COVID-19: Cefnogaeth i Gymru - 9 Ebrill 2020

Briff Ymchwil

## 10 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

(16.15–16.25)

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 4 Mehefin 2020

Amser: 14.00 - 15.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6347

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Nick Ramsay AS<br>Mark Reckless AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Margaret Davies, Llywodraeth Cymru<br>Matthew Denham-Jones, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN1 - Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol: Capasiti'r Senedd - 15 Mai 2020**

**2.2 PTN2 - Llythyr gan Awdurdod Cyllid Cymru - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20 - 22 Mai 2020**

**2.3 PTN3 - Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at yr Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Adroddiadau Statudol - 29 Mai 2020**

## 3 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Matthew Denham-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaethau Ariannol; a Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllidebu Strategol ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor:

- gan nodi faint o gyllid ychwanegol cyffredinol ar gyfer COVID-19 y bydd pob bwrdd iechyd yn ei gael yn y gyllideb atodol hon;
- gan rannu dangosyddion perfformiad allweddol yr adran iechyd ar gyfer mesur effeithiolrwydd y gwariant gwerth £57 miliwn i gefnogi'r Strategaeth Profi Olrhain Diogelu, o ran y cyfalaf sy'n ofynnol i sefydlu'r rhaglen a'i chostau gweithredu;
- a chan nodi canlyniad ei thrafodaethau â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y cyllid ar gyfer Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 15 Mehefin 2020

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Mehefin 2020

Amser: 14.01 - 15.48

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6368

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Nick Ramsay AS<br>Mark Reckless AS |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21: Trafod yr adroddiad drafft

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.

## 3 Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Trafod yr adroddiad drafft

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.

## 4 Cyflwyno a gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol Papur cwmpasu

4.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu a chytunodd ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad.

## 5 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cyllid 2020

5.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunwyd ar yr adroddiad.

## 6 Ymchwiliad i broses cyllideb ddeddfwriaethol: Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

6.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog a chytunwyd i baratoi adroddiad interim ar ymchwiliad y Pwyllgor.

## 7 Goruchwylio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru: Y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y Pwyllgor Cyllid

7.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 8 Goruchwylio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru: Treuliau'r Cadeirydd

8.1 Nododd y Pwyllgor y mater ynghylch treuliau'r Cadeirydd.

## 9 Goruchwylio gwaith Swyddfa Archwilio Cymru: Trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru

9.1 Nododd y Pwyllgor drefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a’r mater ynghylch treuliau a chytunwyd i ddychwelyd at y mater yn dilyn y sesiwn graffu nesaf gyda'r Archwilydd Cyffredinol.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Eitem 2.1

Eluned Morgan AS

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Llywodraeth Cymru

17 Mehefin 2020

Annwyl Eluned,

**Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2020-21**

Trafododd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yn ein cyfarfod ar 11 Mehefin.

Deallaf fod y dyraniad cyllideb ar gyfer y Gymraeg wedi gostwng £2 filiwn yn eich portffolio. Mae'r nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Atodol a osodwyd gerbron y Senedd yn dweud bod yr arbedion hyn ar gael 'o ganlyniad i addasu'r amgylchedd dysgu a rheoli'r ddarpariaeth yn yr hinsawdd sydd ohoni' ac o ganlyniad i ail-flaenoriaethu cyllid yn ymwneud â 'gweithgareddau a oedd wedi'u cynllunio ond nad oes modd iddynt ddigwydd nawr o ganlyniad i'r pandemig neu maent wedi cael eu gohirio neu eu haddasu'.

Sylwaf hefyd i £350,000 gael ei ail-flaenoriaethu o BEL Cymraeg mewn Addysg ym mhortffolio'r Gweinidog Addysg. Roedd y cyllid hwn i'w ddefnyddio i gefnogi darpariaeth blynyddoedd cynnar megis Mudiad Meithrin, cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg a Choleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi rhoi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i effaith COVID-19 ar feysydd sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Mae'n nodi bod y Ganolfan wedi trafod gostyngiad yn ei chyllideb â Llywodraeth Cymru ddiwedd mis Mawrth 2020, a'r canlyniad oedd gostyngiad o £1.5 miliwn yn

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

ei chyllideb rhwng Ebrill 2020 a Gorffennaf 2021. O'r gostyngiad gwerth £1.5 miliwn, daw £1.02 filiwn o gyllideb Cymraeg Gwaith. O ganlyniad, bydd yn rhaid i'r Ganolfan oedi peth o'i rhaglen waith arfaethedig ac ystyried cyfleoedd eraill i weithwyr ddysgu Cymraeg.

Sylwaf o'i thystiolaeth fod y Ganolfan wedi ehangu ei dysgu ar-lein i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn y galw yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'r ganolfan wedi darparu 89 o ddosbarthiadau ar-lein ac mae wedi cofrestru 1,300 o ddysgwyr. Mae'r cynnydd hwn yn y galw am ddysgu digidol wedi dangos bod awydd ymysg y cyhoedd i ddysgu Cymraeg. Mae'r Pwyllgor am sicrhau ein bod yn datblygu hyn ymhellach ar hyn ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i ben. Sylwaf hefyd o dystiolaeth y Ganolfan fod trafodaethau yn mynd rhagddynt â Llywodraeth Cymru ynghylch doriadau pellach i'r gyllideb.

Rwy'n mawr obeithio y gallwch chi roi sicrwydd i ni mai mesur dros dro yw'r gostyngiad yn y gyllideb yn eich portffolio, ac y bydd y gyllideb yn cael ei hadfer yn llawn ar ôl Gorffennaf 2021. Yn wir, os ydym am ddatblygu'r cynnydd hwn yn niddordeb pobl mewn dysgu'r iaith ar-lein, bydd angen buddsoddiad ychwanegol i gefnogi dysgu digidol, ochr yn ochr â dulliau dysgu mwy traddodiadol yn y dyfodol.

Rwy'n awyddus i sicrhau na fydd y tir a enillwyd gan y Ganolfan yn cael ei golli. A fydd eich adran yn cynnal dadansoddiad risg o effaith lleihau cyllideb y Ganolfan?

Mae'n hanfodol bod cyllid yn cael ei sianelu i ddelio â bygythiad uniongyrchol COVID-19, ond rwy'n awyddus i'r gostyngiad cyllid beidio â bod yn barhaol. A allwch roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod digon o gyllid i gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

Yn amlwg, rhaid blaenoriaethu adnoddau i leihau niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol yn deillio o bandemig COVID-19. Blaenoriaeth hefyd yw cefnogi'r rhai y mae eu bywoliaeth yn y fantol am na allant weithio. Felly, rwy'n croesawu ac yn cefnogi ail-flaenoriaethu £800,000 o gyllideb Digwyddiadau yng Nghymru i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn sgil canslo digwyddiadau yn 2020. A allwch roi gwybod imi a fyddwch yn cwrdd

â chynrychiolwyr o'r sefydliadau hyn i asesu effaith ariannol canslo'r digwyddiadau hyn? Hoffai'r Pwyllgor hefyd wybod a yw'r Urdd a sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r Gymraeg wedi cysylltu â chi am gymorth ychwanegol yn y tymor byr ac yn y tymor hwy.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn y llythyr hwn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Helen Mary Jones

Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

c.c. Llyr Gruffydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Mehefin 2020

Annwyl Llŷr,

Pan roddais dystiolaeth i'r Pwyllgor y mis diwethaf ynghylch yr ymateb ariannol i argyfwng COVID-19, tynnais sylw at y trafodaethau adeiladol sy'n cael eu cynnal fel rhan o gyfarfodydd rheolaidd pedairochrog y Gweinidogion Cyllid.

Ers dechrau'r argyfwng, rydym wedi cyfarfod bedair gwaith (27 Mawrth, 9 Ebrill, 30 Ebrill a 19 Mai) i drafod yr ymateb cyllidol i'r argyfwng. Mae'r cyfarfodydd wedi canolbwyntio ar ystod o faterion, yn amrywio o sicrwydd ynglŷn â'r cyllid a'r hyblygrwydd sydd ar gael i'r llywodraethau datganoledig i ymateb i'r argyfwng a lliniaru ei effaith, i ymyriadau penodol megis y Cynllun Cadw Swyddi. Yn yr wythnosau sydd i ddod, byddwn yn disgwyl i'n trafodaethau ganolbwyntio ar oblygiadau ariannol llacio'r cyfyngiadau symud a dechrau'r cyfnod adfer, yn ogystal â'r trafodaethau parhaus ynglŷn â hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol.

Yn unol â'm tystiolaeth ddiweddar i'r Pwyllgor ar y Gyllideb Atodol Gyntaf, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y newid o gyfalaf i refeniw ar ôl inni gwblhau'r trafodaethau hynny gyda'r Trysorlys.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Eitem 2.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref RE/235/20

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Mehefin 2020

Annwyl Llŷr,

Rwy’n ysgrifennu atoch i roi rhagor o wybodaeth ichi am rai materion a godwyd yn ystod ein sesiwn graffu diweddar ar y gyllideb atodol gyntaf.

Cyllid COVID-19 ychwanegol i Fyrddau Iechyd

Dyrannwyd £573m i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y gyllideb hon i gefnogi’r ymateb i COVID-19. Mae hyn yn cynnwys dros £113m yr oedd y Gweinidog Iechyd yn gallu ei aigyfeirio o fewn ei MEG i’w ddefnyddio ar gyfer yr ymateb uniongyrchol i COVID-19.

Bydd dros £490m yn cael ei gyfeirio tuag at gefnogi Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd. Mae’r dyraniadau yn cynnwys cyllid ar gyfer cyfarpar diogelu personol, ysbytai maes, staff ychwanegol, profion ac offer a nwyddau traul meddygol ychwanegol.

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig hwn, llwyddom i sicrhau bod cyllid yn cael ei gymeradwyo’n gyflym a bod cymorth ariannol ar gael i’r GIG ar yr adeg gywir. Mae cyrff y GIG yn awr yn cyflwyno gwybodaeth fonitro yn fisol sy’n dangos effaith ariannol COVID-19 yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn, a’r rhagolygon ar gyfer gweddill 20-21. Mae swyddogion yn gweithio drwy’r wybodaeth hon a disgwylir y bydd dyraniadau’r chwarter cyntaf yn cael eu cadarnhau cyn diwedd Mehefin.

Y Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu

Diben y dyraniad o £57m ar gyfer Profi oedd cefnogi gofynion cychwynnol Strategaeth Brofi Cymru Gyfan a gyhoeddwyd ar ddiwedd mis Mawrth. Bydd y rhan fwyaf o’r cyllid hwn yn mynd i Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi’r gwaith y maent wedi bod yn ei wneud i alluogi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cymru i ddatblygu ei gallu yn raddol i brofi gweithwyr allweddol ac, yn fwy diweddar, unrhyw un sydd â symptomau o’r haint.

Mae’r ffocws yn awr ar y polisi Profi, Olrhain, Diogelu a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Cymru. Rydym yn sicrhau y bydd modd rhoi hwn ar waith yn effeithiol yng Nghymru, ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU. Mae’r cyllid a roddwyd hyd yma yn ffurfio un elfen yn unig o’r strategaeth, ac mae gwaith yn parhau ar gwmpas llawn y cyllid sydd ei angen ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon, ac nid oedd yn bosibl ei gynnwys yn y gyllideb hon.

Byddaf yn rhoi diweddariad pellach ar ddatblygiadau'r rhaglen hon ac ar fonitro ei heffeithiolrwydd yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y gyllideb atodol gyntaf.

Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog

Gallaf gadarnhau bod cynllun Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog ar gael eleni ac yn cael ei ariannu o’r MEG Tai a Llywodraeth Leol. Bydd penderfyniadau ar gyllid ar ôl 2020-21 yn cael eu gwneud fel rhan o’r gyllideb flynyddol ar gyfer 2021-22 yn y ffordd arferol.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru

23 Mehefin 2020

Annwyl Llŷr

Yn ystod sesiwn graffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb ddrafft 2020-21 ar 18 Rhagfyr, gofynnodd Alun Davies AS sut y byddai'r £8m ychwanegol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn 2020-21 yn cael ei ddyrannu. Gofynnodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i mi ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth hon. Ym mis Ionawr 2020, ysgrifennais at y Pwyllgor gan amlinellu'r dull o ddyrannu'r cyllid, a fydd yn cael ei rannu rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn unol â chyfran y dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ym mhob sector. Mae'r llythyr hwn yn darparu dyraniadau terfynol.

Gan ddefnyddio'r fethodoleg uchod, cyfrifwyd y rhaniad rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach fel 89.4% i awdurdodau lleol a 10.6% i addysg bellach. Mae hyn yn cyfateb i **£7,154,904 i awdurdodau lleol** a **£845,096 i addysg bellach**.

Ar gyfer awdurdodau lleol, mae'r fformiwla Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion AAA presennol o fewn y Grant Cynnal Refeniw wedi pennu'r dyraniad cyllid i bob awdurdod lleol drwy 22 grant unigol am y symiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Ynys Môn | **£161,437** |
| Gwynedd | **£273,992** |
| Conwy | **£253,726** |
| Sir Ddinbych | **£229,117** |
| Sir y Fflint | **£369,932** |
| Wrecsam | **£326,376** |
| Powys | **£278,526** |
| Ceredigion | **£144,183** |
| Sir Benfro | **£283,673** |
| Sir Gaerfyrddin | **£432,153** |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| | |
|---|---|
| Abertawe | **£514,285** |
| Castell Nedd Port Talbot | **£335,051** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | **£325,065** |
| Bro Morgannwg | **£297,835** |
| Rhondda Cynon Taf | **£593,285** |
| Merthyr Tudful | **£151,141** |
| Caerffili | **£450,641** |
| Blaenau Gwent | **£169,404** |
| Torfaen | **£228,312** |
| Sir Fynwy | **£199,831** |
| Casnewydd | **£361,179** |
| Caerdydd | **£775,760** |

Ar gyfer sefydliadau addysg bellach, bydd y dyraniadau canlynol yn cael eu gwneud drwy’r grant Cymorth Dysgu Ychwanegol i Addysg Bellach:

| | |
|---|---|
| Coleg Penybont | **£54,690** |
| Coleg Sir Gâr | **£59,572** |
| Coleg Cambria | **£86,942** |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | **£83,668** |
| Coleg Gwent | **£95,708** |
| Y Coleg Merthyr Tudful | **£45,996** |
| Coleg Sir Benfro | **£46,895** |
| Coleg y Cymoedd | **£77,456** |
| Coleg Catholig Dewi Sant | **£39,639** |
| Coleg Gŵyr Abertawe | **£66,988** |
| Addysg Oedolion Cymru | **£35,079** |
| Grwp NPTC Group | **£65,303** |
| Grwp Llandrillo Menai | **£87,160** |

Bydd canllawiau yn gosod blaenoriaethau ar gyfer defnyddio’r cyllid yn cael eu cyhoeddi cyn i’r cynigion gael eu cyflwyno gan sefydliadau addysg bellach.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Copi: Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd

Eitem 2.5

Jeremy Miles AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

25 Mehefin 2020

Annwyl Jeremy,

**Polisi buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit – cais am ddiweddariad**

Er gwaethaf yr amgylchiadau digynsail sy'n deillio o'r pandemig COVID-19, mae'r ddwy ochr wedi nodi (yn fwyaf diweddar ar ôl y Cyfarfod Lefel Uchel ar 15 Mehefin) y bydd proses Brexit yn parhau ar yr un cyflymder, heb unrhyw estyniad i'r cyfnod pontio.

Mae ein Pwyllgor wedi dangos diddordeb brwd yn yr holl oblygiadau i Gymru pan fydd yn gadael yr UE. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith ar raglenni cyllido'r UE yng Nghymru a phontio i unrhyw gynlluniau olynol. Felly, byddem yn croesawu diweddariad gennych chi ar weithrediad rhaglenni ariannu presennol yr UE yng Nghymru a chipolwg ymlaen at y dirwedd cyllido buddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol.

**Rhaglenni cyllid cyfredol yr UE (2014-2020)**

Byddem yn ddiolchgar petaech yn gallu ateb y cwestiynau canlynol:

- Pa effaith y mae'r pandemig COVID-19 wedi ei chael ar gyflwyno prosiectau cyllido'r UE yng Nghymru?
- Pa effaith – os o gwbl – y mae'r pandemig COVID-19 wedi ei chael ar waith Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru?
- Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran dyrannu cyllid Ewropeaidd, gan gynnwys dyrannu Cronfeydd Strwythurol 2014-20 (wedi'u rhannu yn ôl rhanbarth a math); rhaglen Iwerddon-Cymru 2014-20; a Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20?
- Beth yw goblygiadau'r rheolau N+3 Ewropeaidd ar gyfer prosiectau a ariennir yn ystod y rownd ariannu presennol yn sgil Brexit?

**Banc Buddsoddi Ewrop**

Yn ogystal â'r prosiectau a ariennir yn uniongyrchol gan gyllid Ewropeaidd, mae Cymru wedi elwa o gyllid sydd y tu allan i gyllideb yr UE dros y blynyddoedd, yn enwedig trwy Fanc Buddsoddi Ewrop.

Byddem yn ddiolchgar petaech yn gallu ateb y cwestiynau canlynol:

- Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran negodi'r berthynas â Banc Buddsoddi Ewrop yn y dyfodol a pha rôl y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chwarae yn y trafodaethau hyn?

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.wales
0300 200 6565

- Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o nifer y prosiectau sy'n elwa o fuddsoddiad Banc Buddsoddi Ewrop yng Nghymru ar hyn o bryd a fyddai'n cael eu heffeithio pe bai'r DU yn tynnu yn ôl o Fanc Buddsoddi Ewrop (gan gynnwys cyfanswm gwerth y prosiectau hynny)?
- Os bydd y DU a'r UE yn methu â chytuno ar ryw fath o berthynas â Banc Buddsoddi Ewrop yn y dyfodol (fel y nodir yn y Datganiad Gwleidyddol), pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i liniaru effaith y posibilrwydd y bydd y DU yn tynnu'n ôl o Fanc Buddsoddi Ewrop ar brosiectau a ariennir yng Nghymru?

**Dyfodol buddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit**

Rydym yn nodi y gwnaeth eich ymgynghoriad diweddar ar ddyfodol buddsoddiad yr UE yng Nghymru ddod i ben ar 10 Mehefin. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â syniad o'r nifer a'r math o ymatebwyr, ac unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg y gallwch eu rhannu â ni.

O ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin, byddem yn ddiolchgar petaech yn gallu ateb y cwestiynau canlynol:

- Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac a ydych chi wedi cael amserlenni gan Lywodraeth y DU o ran manylion am weithrediad y Gronfa?
- Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi'u cael ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chyllid buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol ers i'r DU adael yr UE ar 31 Ionawr 2020? A fyddech cystal â darparu manylion am y trafodaethau ar lefel gweinidogion a swyddogion.
- Beth yw eich rhagdybiaethau cynllunio o ran cyfanswm y cyllid newydd y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael at ddibenion buddsoddi rhanbarthol ar ôl diwedd y cyfnod pontio? Darparwch fanylion am y dull cyllido, os ydynt ar gael.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ateb erbyn 20 Gorffennaf 2020. Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid hefyd.

Yn gywir,



David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Ein cyf: MA-RE-1956-20

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

3 Gorffennaf 2020

Annwyl Llyr,

Roeddwn am roi gwybod i'r Pwyllgor fod Trysorlys ei Mawrhydi wedi cymeradwyo blaenswm o £856,557,000 o Gronfa Hapddigwyddiadau'r DU i Swyddfa Cymru yn ddiweddar. Bydd y blaendaliad hwn yn galluogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fodloni'r rhagolwg o ran y gofynion arian parod Llywodraeth Cymru cyn i Senedd y DU gymeradwyo Prif Amcangyfrifon 2020-21 a ddisgwylir ganol mis Gorffennaf.

Fel arfer, yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol, caiff gofynion Llywodraeth Cymru o ran arian parod eu diwallu drwy 'bleidlais ar gyfrif' a gymeradwyir gan Senedd y DU o fewn Deddf Cyflenwi a Neilltuadau (Rhagweld ac Addasu) y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r gwariant ychwanegol digynsail sydd wedi digwydd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws, nid yw terfyn y bleidlais ar gyfrif yn ddigon i gwmpasu'r arian parod sydd ei angen drwy gydol mis Gorffennaf fel y'i pennwyd cyn y cynnydd yn ein cyllideb ar gyfer 2020-21. Nid yw'r gyllideb flynyddol gynyddol hon, ynghyd â'r cyllid ariannol i'w chefnogi, ar gael nes i Brif Amcangyfrif 2020-21 gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Senedd y DU.

Mae'r Gronfa Hapddigwyddiadau yn weithdrefn safonol yn y DU i gael gafael ar arian i fodloni'r angen tymor byr cyn i'r Prif Amcangyfrif gael ei gymeradwyo a chaiff ei ad-dalu unwaith y caiff y Prif Amcangyfrif ei gymeradwyo. Bydd Swyddfa Cymru yn rhoi cyfrif am y blaendaliad a'r ad-daliad.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Archwilydd Cyffredinol Cymru er gwybodaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : RE-249-20

Rt. Hon Rishi Sunak MP
Chancellor of the Exchequer
HM Treasury
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ

3 July 2020

Dear Rishi,

As you prepare to set out your Summer Economic Update in what are extraordinarily difficult circumstances, I thought it would be useful to describe the challenges we are facing in Wales and to remind you of some of our priorities which I mentioned when writing to you prior to your March Budget Statement.

**Current Economic Conditions**

In April, the UK economy was 25% smaller than it was in February. We are in the deepest recession in living memory caused by the necessity to shut down most non-essential economic activity owing to the coronavirus pandemic. While it is not yet clear to what extent GDP has decreased in Wales, we know from other data, much of it published by the Office for National Statistics, that our economy has been hit at least as hard as the UK economy on average.

While the speed and scale of the decline in GDP has been of almost unimaginable proportions, the labour market in Wales in terms of the headline indicators of employment, unemployment and inactivity has not yet materially deteriorated. The position in the UK labour market is similar. This is partly due to employment being a lagging indicator but also reflects the effectiveness of the Coronavirus Job Retention Scheme (CJRS) and the Self Employed Income Support Scheme (SEISS) in insulating the labour market from what would have been catastrophic losses in employment and increases in unemployment and inactivity. We welcome the decisive action taken in this regard.

Despite the employment support schemes, behind the headlines there is evidence of distress in the labour market. Vacancies have collapsed, hours worked have decreased at a record rate while claims for unemployment insurance have increased sharply in every local authority in Wales. News of major redundancies is now a recurrent feature of daily life, with the announcement of more than 1,400 potential redundancies at Airbus a body blow to the economy of North-East Wales and Cheshire. Alarming concerns have also been raised

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

by the steel industry which is heavily concentrated in Wales as well as being of strategic significance to the UK economy as a whole.

Given the economic stress that is emerging even while the CJRS and the SEISS remain in place, we are deeply concerned that the worst is yet to come for the labour market were you to implement your plans to taper down, then close the CJRS at the end of October and end SEISS payments in August. Indeed, the Resolution Foundation estimates that one million furloughed workers could lose their jobs.

In the letter I and my colleague the Minister for the Economy and Transport wrote on 4 June (attached for ease of reference) I urged you to continue to monitor the situation, put in place active labour market measures to cope with redundancies, clarify whether you would intend to revive the JRS and SEISS if there is a second peak or local lockdowns and work with Whitehall Departments and the devolved Governments to put in place sectoral employment protection schemes for sectors which continue to be closed or very substantially impacted by Covid measures, notably hospitality and culture. The need for clarity on all these issues has only become more evident over the last month.

**Fiscal Policy**

*Spending*

I agree with the Prime Minister that the Government response to the current economic crisis must not be a further period of austerity.

The pandemic has compelled governments across the world to ramp up spending dramatically. I note that UK Government current spending was £64 billion higher in the first two months of the current financial year compared with a year earlier. I welcome the allocation of additional resources to finance new and existing programmes to deal with the crisis. It will be very important for this approach to be sustained and for the appropriate funding and tools to be in place for us to manage the recovery.

The Welsh Government has allocated more than £2.4 billion to date to COVID-19 measures. The funding is drawn from COVID-19 consequentials as well as more than £500 million which has been reprioritised within existing Welsh Government budgets and EU funds. Our forecast pressures are close to £1 billion. Pressures stem from a variety of sources. On health they cover a range of interventions including NHS workforce, testing and tracing and field hospitals.

These pressures do not include measures that will be needed to support the economic recovery and respond to further shocks, which cannot be sensibly estimated at this time. Neither do they include higher costs for Welsh Government programmes, like Free School Meals and the Council Tax Reduction Scheme, which will result from increases in unemployment and in families claiming Universal Credit.

Our spending pressure estimates are based on the assumption that no second or third waves of the pandemic materialise. So, the position could be materially worse than outlined above. Clearly additional funding is required at a scale that only the UK Government has the fiscal firepower to deliver. I urge you to use the Summer Economic Update to allocate the necessary funds to allow the Welsh Government to manage the pandemic as effectively as possible in order to protect jobs, services and living standards.

*Taxation*

I welcome the UK Government's use of its tax levers to respond to the pandemic. More needs to be done to prevent the losses that have already occurred in output and the seemingly imminent losses in employment from becoming permanent. Such 'scarring' would impact most on the well-being of young people, those on low pay, those with few skills, disabled groups and many from BAME backgrounds. Accordingly, the UK Government should as a matter of urgency use the tax system to incentivise companies to retain and hire workers. To this end I urge you to consider reducing employer National Insurance Contributions (NICs) or increasing the employer NICs threshold. Either would reduce labour costs for employers, encourage job creation as well as job retention and facilitate the eventual winding down of the CJRS.

As for the broader tax system, I would welcome meaningful engagement along with the other devolved administrations on future planning across the range of current and potential taxes in order to deliver our common aim of simplifying the UK tax system and making it more coherent, progressive and efficient.

*Welfare*

As is always the case with recessions, it is the most vulnerable and poorest groups in society who suffer most and COVID 19 has proven to have a negative impact on equality. It is already evident that a larger proportion of low-paid workers have been furloughed and are likely to be made redundant compared with those in better-paid jobs. I welcome the UK Government's decision to make the benefits system more generous and extensive in reach at the outset of the crisis. To prevent an unacceptable increase in poverty that would accompany any increase in unemployment, the benefits system must provide support that guarantees dignity for vulnerable citizens including those who stand to lose their jobs. The welfare system must reflect the enormity of the impact of this pandemic and better support those who are unemployed or economically inactive to work or to retrain and acquire new skills so that they can join or re-join the labour market as soon as possible.

I also urge the UK Government to reverse the regressive welfare reform and cuts implemented over the last ten years. These changes have disproportionately affected the most vulnerable groups in society. I ask that the UK Government removes the two-child limit policy, the five week wait for the first Universal Credit payment and end the benefit cap. I also urge you to retain the temporary increases in the welfare safety net recently introduced. I also ask you to clarify that the increase in the Local Housing Allowance (LHA) to the 30th percentile will continue past 31 March 2021 and call on the UK Government to reinstate LHA rates to the 50th percentile.

In the immediate term, it will be vital to significantly increase Statutory Sick Pay for those who are required to self-isolate as a result of our Test, Trace and Protect strategy and the equivalent programmes in other parts of the UK. We already know in the context of the outbreaks of COVID in meat plants in North Wales that economic hardship is resulting for those who should self-isolate but continue to go to work for financial reasons. The relatively modest cost of preventing such hardship could help forestall the massive economic damage that would result from a second national lockdown.

*Budget Flexibility*

These are exceptionally uncertain times. It is now imperative that our fiscal flexibilities reflect the scale of the decisions being taken by the Welsh Government and their implications for businesses, public services and communities. I am asking for the following

budgetary and fiscal flexibilities to ensure the Welsh Government's response provides the confidence we and our partners need to manage the crisis as effectively as possible:

- Full access to the resources in the reserve this year if required, and the ability to carry forward more resource and capital in the Reserve at the end of the financial year.
- The ability to carry forward, at the end of the year, more than the overall £350m limit on the Reserve. This is because of the uncertainties about the impact of the crisis on existing programmes, the costs of new programmes, and the level of new funding from the UK Government.
- The ability to switch funding from capital to revenue budgets, and the option to deploy revenue borrowing, to provide further useful flexibilities and aid budget management.
- An increase in the annual capital borrowing limit (currently £150m) and the aggregate ceiling (currently £1bn) to enable the Welsh Government to further support its capital programmes, if necessary, and to aid the economic recovery over the longer term.
- More flexible repayment terms for Financial Transactions capital.

Whether we need to use these flexibilities will depend on how the recovery progresses, but their availability will enable us to allocate resources now, where they are needed. It would be a significant advantage if these additional flexibilities were available to the Welsh Government as a matter of course and did not require permission from the UK Government on a case by case basis. The higher limits for accessing the Reserve, carrying forward via the Reserve, and for capital borrowing should be long term arrangements, to enable efficient and effective budget management.

I very much welcome the constructive discussions I have had with the Chief Secretary over the last few months in relation to increasing flexibilities. Agreement at this time would represent a meaningful demonstration of the way in which the UK Government and the governments of the devolved administrations can work together in the shared governance of the UK, in our response to this pandemic. Supportive call for these flexibilities made by the Welsh Local Government Association, FSB Cymru, Wales TUC, the Institute of Fiscal Studies and the Senedd's Finance Committee underscore the urgency now attached to this issue in Wales.

**EU Issues**

Ending the Brexit transition period without a comprehensive free trade deal in place would be deeply damaging in normal circumstances, but even more so given the damage the pandemic will have inflicted on the economy by the end of the year. I urge the UK Government to negotiate a comprehensive free trade agreement with the EU. Anything less will compound pandemic damage and structurally weaken the public finances.

I remain concerned about the lack of clarity as to how the UK Government will live up to its manifesto commitments that Wales will not lose a penny of EU funding after the transition period ends, and that the devolution settlement will be fully respected. The details of the Shared Prosperity Fund allocations to the Welsh Government – which will therefore need to at least match what Wales would have received had the UK remained a member of the EU – should be shared urgently: we have already made great progress in planning for how to manage replacement funds and further UK Government delays in providing this information risk depriving Wales of crucial funds in the early years of the successor arrangements, hitting local communities and economies that are already suffering as a result of the Covid-19 pandemic. Indeed thousands of businesses supported by the Economic Resilience Fund

have benefitted from the swift action Welsh Ministers have been able to take to provide support that is tailored to the needs of the Welsh economy. Similar clarity on agriculture and rural development funding and funding Wales receives from other EU programmes is also long overdue.  Your Summer Economic Update is an important opportunity to show that the UK Government has not forgotten those who currently rely on this funding.

**Addressing Regional Inequality**

Finally, when I wrote to you before the Budget, I emphasised that if the UK Government is serious about ‘levelling up’ and addressing regional inequality across the UK it will require significant investment in Wales, including in non-devolved areas such as research and development and rail. I would like to take this opportunity to stress the importance we attach to these issues. They should not be neglected in the current crisis. I will refrain from repeating all the points I made in that earlier letter, but I look forward to engaging constructively with you on this subject in more propitious times.

I am copying this letter to the Chief Secretary to the Treasury, the Secretary of State for Wales and the First Minister for Wales. I am also sharing this letter with the Chair of the Senedd Finance Committee.

Yours sincerely,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Ken Skates AS/MS
Y Gweinidog yr Economi, Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref RE/221/20

Chancellor of the Exchequer
Rt Hon Rishi Sunak MP
H M Treasury
action.chancellors@hmtreasury.gov.uk

04 June 2020

Dear Chancellor,

**Job Retention Scheme and Self-Employment Income Support Scheme**

We are writing further to your announcement on 29 May about the future of the Job Retention Scheme.

As you know, the Welsh Government is hugely supportive of the fact that the UK Government launched the Job Retention Scheme (JRS) and the Self-Employment Income Support Scheme (SEISS). These two schemes have played a vital role in enabling businesses across Wales (and indeed the UK) to survive the initial shock of the Covid 19 crisis and lockdown.

We therefore welcome your announcement that self-employed people will be able to claim a second quarter of the SEISS, your confirmation that the JRS will continue until the end of October, the early introduction of 'flexible JRS' and the fact that the requirement for an employer contribution will only be phased in relatively gradually.

However, we have a number of questions and concerns.

Firstly, you have made clear that it is your intention that the JRS (and SEISS) will be brought to an end at the end of October. This will inevitably represent a 'cliff-edge' for many businesses, while some may even balk at the first steps to make them contribute from August on. Do you have any estimates or modelling of the likely level of redundancies which will result? How do you propose to mitigate this? What plans, if any, do you have for active labour market measures to support those made redundant with training and into new jobs?

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Secondly, will the decision to end the Schemes definitively be implemented even if there is a second (or further) peak(s) which require a further national lockdown?  Or if the response to the pandemic going forward requires regional or local lockdowns with some or all businesses in those areas required to close? In our view, this would seem illogical and would risk very significant job losses which in turn will increase welfare expenditure.

Thirdly, is it your expectation that by the time the Schemes end there will be no businesses which are closed as a result of Covid 19-related public health legislation or which, while legally allowed to operate will in practice not be able to re-open? In Wales, we are not confident that businesses in the hospitality and tourism sector (particularly pubs, cafes and restaurants without outdoor space) and arts and cultural organisations will be able to function normally on this timescale. As you have been clear that you do not wish to differentiate between sectors in access to the JRS, will you consider working with the relevant Whitehall departments (notably DCMS) and the devolved governments to identify and meet specific sectoral needs?

Finally, what is your intention with regard to individuals required to self-isolate as a result of the 'test, trace and isolate' policy which is intrinsic to our Governments efforts to prevent the uncontrolled spread of the virus? It is essential that people advised to stay at home are not pressurised by loss of income to go back to work and we believe this is bound to be the case if all they are offered is the minimal income from Statutory Sick Pay. There is also a strong equalities aspect to this, given the clear evidence that BAME people are disproportionately likely to become ill with the virus.

We are copying this letter to the Chief Secretary to the Treasury, to the Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy and to our counterparts in the Scottish Government and the Northern Ireland Executive.

Yours sincerely,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

**Ken Skates AS/MS**
Y Gweinidog yr Economi, Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

7 Gorffennaf 2020

Annwyl Llyr

**Prosiect meddalwedd ar gyfer deddfwriaeth: y wybodaeth ddiweddaraf**

Yn ei adroddiad ar gyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2020-21 ym mis Tachwedd 2019, gwnaeth y Pwyllgor Cyllid yr argymhelliad a ganlyn mewn perthynas â'r broses gaffael ar gyfer prosiect meddalwedd newydd ar gyfer deddfwriaeth y nododd y Comisiwn yn ei gyllideb ddrafft fel prosiect strategol allweddol:

> **Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu rhagor o fanylion am y prosiect meddalwedd deddfwriaeth ym mis Mehefin 2020 pan fydd mwy o fanylion, gan gynnwys costau, am y prosiect yn hysbys a bod y contract wedi'i ddyfarnu.

Yn dilyn cymeradwyaeth Bwrdd Gweithredol y Comisiwn a Bwrdd Rhaglen Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2019, rheolodd a chynhaliodd y Comisiwn ymarfer tendro llawn Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2020. Dewisodd y panel gwerthuso Propylon LWB 360 fel y cynnyrch mwyaf addas ar gyfer ein gofynion, a dyfarnwyd y contract i Propylon ar ôl i Fwrdd Gweithredol y Comisiwn a Bwrdd Rhaglen Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r achos busnes llawn ym mis Ebrill/Mai 2020.

Fel yr ydych yn gwybod, mae Cyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2020-21 yn nodi fel a ganlyn:

> "Gallai amcangyfrif cost y prosiect i'r Comisiwn fod oddeutu £1 miliwn, fesul cam dros ddwy flynedd ariannol. Bydd y costau fesul blwyddyn ariannol yn cael eu cwblhau pan fydd cynllun prosiect ac amserlenni cysylltiedig wedi'u cytuno. Nid yw hyn yn cynnwys costau cefnogi blynyddol yr amcangyfrifir y byddant yn £100,000 y flwyddyn yn ychwanegol."

Gallaf gadarnhau yn awr fod cyfanswm y costau a ddarparwyd gan Propylon yn eu cais o fewn y swm hwn. Mae gwybodaeth am y costau wedi'i chynnwys yn y tablau a ddarperir fel atodiad i'r

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

llythyr hwn, gyda'r costau'n cael eu rhannu'n gyfartal rhwng Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru.

Bydd gweithredu'r system i'r cam 'cynnyrch isafswm ymarferol' yn cymryd oddeutu 11 mis, gyda system newydd yn weithredol ym mis Mai 2021. Bydd yn disodli'r system bresennol, sef Propylon Legislative Workbench, y mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru wedi'i defnyddio ers 2010. Bydd y system yn cael ei datblygu ymhellach yn ystod ei blwyddyn weithredu gyntaf.

Bydd Bwrdd Prosiect yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad llwyddiannus system feddalwedd deddfwriaeth newydd. Sefydlwyd y bwrdd cyn proses dendro Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ym mis Medi 2019, ac mae'n cynnwys swyddogion o Gomisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru.

Gobeithio ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi.

Yn ôl yr arfer, cofiwch roi gwybod os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach.

Yn gywir

Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Atodiad 1**

**Costau’r prosiect Meddalwedd ar gyfer Deddfwriaeth**

| **Costau sefydlu** | **2020-21** | **2021-22** | **2022 >** |
|---|---|---|---|
| Sefydlu seilwaith | £8,000 | | |
| Datblygu pwrpasol - gofynion cynnyrch isafswm ymarferol | £125,500 | | |
| Datblygu pwrpasol - gofynion hanfodol | | £58,000 | |
| Gosod a sefydlu’r amgylchedd | £52,500 | | |
| Cyfluniad i gyflawni gofynion y cynnyrch isafswm ymarferol | £445,909 | £66,091 | |
| Cyfluniad i gyflawni gofynion hanfodol | | £182,000 | |
| Trosglwyddo data | £48,180 | £11,820 | |
| Hyfforddiant ar y systemau | £20,000 | £20,000 | |
| Rheoli prosiectau | £80,250 | £69,750 | |
| Treuliau | £10,000 | £3,500 | |
| **CYFANSWM** | **£790,339** | **£411,161** | |
| **COSTAU’R SENEDD (@50%)** | **£395,170** | **£205,580** | |

| **Costau parhaus** | **2020-21** | **2021-22** | **2022 >** |
|---|---|---|---|
| Ffi’r drwydded ar gyfer y feddalwedd | £50,000 | £50,000 | £50,000 |
| Ffi lletya | £20,000 | £20,000 | £20,000 |
| Cymorth, cynnal a chadw a diweddariadau | | £100,000 | £100,000 |
| **CYFANSWM** | **£70,000** | **£170,000** | **£170,000** |
| **COSTAU COMISIWN Y SENEDD (@50%)** | **£35,000** | **£85,000** | **£85,000** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFANSWM COSTAU COMISIWN Y SENEDD*** | **£489,000** | **£231,750** | **£85,000** |

*** Mae’r ffigurau ar gyfer 2020/21 a nodir yma yn gostau uchafswm, a gall rhai o'r costau hyn symud i 2021/22. Nid yw'r costau'n cynnwys TAW y gellir ei hadennill.**

Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddBusiness@Assembly.wales

02 Gorffennaf 2020

Annwyl Llŷr,

Rwyf yn ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr amserlen ar gyfer Cyllideb 2021-22.

Yn anffodus, rydym yn wynebu amgylchiadau tebyg i'r rhai a effeithiodd ar ein paratoadau ar gyfer cyllideb 2019-20. Nid ydym yn gwybod ein setliad cyllideb 2021-22 hyd yn hyn a hyd nes y cawn yr wybodaeth hon ni allwn ddarparu sicrwydd ar ein hamserlen ar gyfer ein cyllideb 2021-22 ein hunain. Ni fydd yr wybodaeth hon ar gael inni nes bydd Llywodraeth y DU yn gorffen ei Hadolygiad Cynhwysfawr o Wariant o'i gymharu â Chyllideb yr Hydref.

Yng nghyfarfod pedairochrog Gweinidog Cyllid y DU yr wythnos diwethaf roedd yr holl Weinyddiaethau Datganoledig yn pwyso am fanylion ynghylch pryd y byddai'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn digwydd. Ers hynny, cadarnhawyd y bydd y Canghellor yn rhoi diweddariad economaidd yr haf ar 8 Gorffennaf ac mae'n bosibl y bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder o ran pryd y bydd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn digwydd. Er hynny, er mwyn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20, rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes yn nodi'r dyddiadau dangosol pryd y caiff y gyllideb ddrafft ei gosod a phryd y caiff cynnig y gyllideb flynyddol ei gyflwyno.

Croesewais eich cefnogaeth, fel rhan o lythyr 29 Mehefin oddi wrth bwyllgorau cyllid y gweinyddiaethau datganoledig at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ein bod unwaith eto'n wynebu lefel annerbyniol o ansicrwydd ynghylch bwriadau Llywodraeth y DU ar gyfer Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

Fel y gwnaethoch gydnabod, ni wyddom eto pryd y bydd yn digwydd na'r cyfnod y bydd yn ei gwmpasu. Nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi ychwaith pryd y bydd yn cyhoeddi ei chyllideb flynyddol yn yr Hydref. Rwyf yn croesawu hefyd eich cydnabyddiaeth bod yr ansicrwydd parhaus sy'n deillio o effaith y pandemig COVID-19 a diwedd y cyfnod pontio yn dilyn Brexit yn golygu yn anochel y byddai'r broses gyllidebol eleni yn fwy heriol i lywodraethau'r pedair gwlad ledled y DU. Byddwn yn cytuno, am y rhesymau hyn, ei bod yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

heriol i mi roi sicrwydd ar hyn o bryd o ran y dyddiadau y byddwn yn cyhoeddi cyllideb ddrafft a chyllideb derfynol 2021-22 Llywodraeth Cymru.

Mae Rheol Sefydlog 20.6 yn gwneud darpariaeth i'r Pwyllgor wneud newidiadau i'r amserlen ar gais y Llywodraeth. Yn amodol ar hyn, ac ar y ddealltwriaeth y byddaf yn darparu amserlen bendant cyn gynted â phosibl ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad ynghylch yr Adolygiad o Wariant a'i Chyllideb, rwyf wedi dweud wrth y Pwyllgor Busnes ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb amlinellol a’r gyllideb ddrafft fanwl gyda'i gilydd ar 8 Rhagfyr, a'r gyllideb derfynol ar 2 Mawrth 2021, yn amodol ar y blaengynllun y cytunir arno ar gyfer cyfarfodydd llawn y Senedd.

Wrth gynnig y dyddiadau hyn rwyf yn ymwybodol o Reol Sefydlog 20.5 a'r trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru o ran y cyfnod a ddarperir ar gyfer craffu. Mae Rheol Sefydlog 20.5 yn darparu, mewn amgylchiadau ‘arferol’, i'r Pwyllgor Cyllid gael 8 wythnos i gyflwyno adroddiad ar gynigion y gyllideb amlinellol a phum wythnos i'r pwyllgorau ystyried cynigion manwl y gyllideb. Er nad oes modd galw hyn yn flwyddyn ‘arferol’ a bod llawer o’r amgylchiadau yn debyg i’r rhai a wynebwyd gennym gyda’n gilydd yn 2019, rwyf wedi ymrwymo o hyd i sicrhau'r gwaith craffu llawnaf posibl ar ein cynigion gwariant. O ganlyniad, byddai'r amserlen yr wyf wedi'i nodi yn caniatáu 8 wythnos ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft, gan gynnwys 5 wythnos eistedd a 3 wythnos pan nad ydym yn eistedd.

Efallai y bydd datganiad y Canghellor ar 8 Gorffennaf yn rhoi sicrwydd cynnar. Os bydd gennym ddealltwriaeth gadarn yr wythnos nesaf byddwn yn falch o ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf cyn toriad yr haf.

Os na fydd hyn yn digwydd, unwaith y cawn sicrwydd, byddwn yn ailedrych ar ein cynlluniau ac yn ysgrifennu eto i gadarnhau ein bwriadau, a byddem yn ceisio cyflwyno ein cynlluniau a chyhoeddi'r gyllideb yn gynharach os bydd amserlen Llywodraeth y DU yn gwneud hyn yn bosibl. Fy mwriad hefyd fyddai sicrhau'r gyfran fwyaf posibl o'r wythnosau eistedd a ddarperir ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft.

Rwyf yn ddiolchgar unwaith eto am ddealltwriaeth y pwyllgor ac yn gobeithio bod y trefniadau hyn yn dderbyniol, o gofio’r amgylchiadau, sy'n cael eu gyrru gan ffactorau allanol y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol ac sydd â lefel ddigynsail o ansicrwydd.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**
—
Welsh Parliament
**Business Committee**

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

8 Mehefin 2020

Annwyl Llyr,

**Amserlen cyllideb 2021-22**

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.2, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cael hysbysiad ffurfiol bod y Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi cynigion amlinellol a chynigion manwl Cyllideb Ddrafft 2021-22 ar 8 Rhagfyr, ac yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb derfynol ar 2 Mawrth 2021. Rwy'n ysgrifennu atoch i geisio barn y Pwyllgor Cyllid ynghylch y terfyn amser arfaethedig i chi gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.4.

Wrth benderfynu ar y terfyn amser hwn, mae Rheol Sefydlog 20.5(i) yn nodi bod yn rhaid rhoi wyth wythnos fel arfer i'r Pwyllgor Cyllid adrodd ar gynigion cyllideb amlinellol, tra bod Rheol Sefydlog 20.5(ii) yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid rhoi o leiaf bum wythnos i bwyllgorau eraill ystyried cynigion cyllideb manwl, yn unol â'r amserlen a bennir gan y dyddiadau uchod a nodwyd yn hysbysiad y Llywodraeth.

Mae'r Trefnydd wedi nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu trefnu'r ddadl ar y gyllideb ddrafft ar ddydd Mawrth 9 Chwefror 2020. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau eraill adrodd erbyn dydd Mawrth 2 Chwefror 2020.

Yn ei llythyr, nododd y Trefnydd fod ansicrwydd digynsail eleni ynghylch bwriad Llywodraeth y DU ar gyfer adolygiad o wariant ac amseriad ei chyllideb. Pe bai'n bosibl gwneud hynny, byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno ei chyllideb yn gynharach yn yr hydref, gan ofyn i'r Pwyllgor Busnes adolygu'r amserlen yn unol â hynny.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565

Byddwn yn ddiolchgar i glywed eich barn ar yr amserlen arfaethedig cyn gynted â phosibl, fel bod modd i'r Pwyllgor Busnes gyhoeddi'r amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb yn fuan ar ôl toriad yr haf. Byddwn yn ddiolchgar hefyd i glywed eich barn ar y posibilrwydd o newid yr amserlen fel y disgrifiwyd, pe bai'r Llywodraeth yn gofyn am wneud hynny.

Cofion cynnes,

**Elin Jones AS**
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddBusiness@Assembly.wales

02 Gorffennaf 2020

Annwyl Elin

Rwyf yn ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes ynghylch yr amserlen ar gyfer Cyllideb 2021-22.

Yn anffodus, rydym yn wynebu amgylchiadau tebyg i'r rhai a effeithiodd ar ein paratoadau ar gyfer cyllideb 2019-20. Nid ydym yn gwybod ein setliad cyllideb 2021-22 hyd yn hyn a hyd nes y cawn yr wybodaeth hon ni allwn ddarparu sicrwydd ar ein hamserlen ar gyfer ein cyllideb 2021-22 ein hunain. Ni fydd yr wybodaeth hon ar gael inni nes bydd Llywodraeth y DU yn gorffen ei Hadolygiad Cynhwysfawr o Wariant o'i gymharu â Chyllideb yr Hydref.

Yng nghyfarfod pedairochrog Gweinidog Cyllid y DU yr wythnos diwethaf roedd yr holl Weinyddiaethau Datganoledig yn pwyso am fanylion ynghylch pryd y byddai'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn digwydd. Ers hynny, cadarnhawyd y bydd y Canghellor yn rhoi diweddariad economaidd yr haf ar 8 Gorffennaf ac mae'n bosibl y bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder o ran pryd y bydd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn digwydd. Er hynny, rwy'n ysgrifennu'r llythyr hwn er mwyn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes o leiaf bythefnos cyn toriad yr haf ar ba ddyddiadau y caiff y gyllideb ddrafft ei gosod a chynnig y gyllideb flynyddol ei gyflwyno.

Ysgrifennodd  pwyllgorau cyllid y gweinyddiaethau datganoledig hefyd at  Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 29 Mehefin i fynegi pryder ynghylch gallu llywodraethau'r pedair gwlad ledled y DU i wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi a chraffu ar eu cyllidebau blynyddol yn yr ansicrwydd parhaus hwn. Rwy'n ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i gydnabod yr anawsterau hyn ac i ofyn am gefnogaeth y Pwyllgor Cyllid i'm cynnig i gyhoeddi amserlen ddangosol, a allai newid.

Mae Rheol Sefydlog 20.6 yn gwneud darpariaeth i'r Pwyllgor wneud newidiadau i'r amserlen ar gais y Llywodraeth. Yn amodol ar hyn, ac ar y ddealltwriaeth y byddaf yn darparu amserlen bendant cyn gynted â phosibl ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ynghylch yr adolygiad o wariant a'i Chyllideb. Hoffwn nodi yn awr ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb amlinellol a’r gyllideb ddrafft fanwl gyda'i gilydd ar 8 Rhagfyr, a'r gyllideb derfynol ar 2 Mawrth 2021, yn amodol ar y blaengynllun y cytunir arno ar gyfer cyfarfodydd llawn y Senedd.

Wrth gynnig y dyddiadau hyn rwyf yn ymwybodol o Reol Sefydlog 20.5 a'r trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru o ran y cyfnod a ddarperir ar gyfer craffu. Mae Rheol Sefydlog 20.5 yn darparu, mewn amgylchiadau ‘arferol’, i'r Pwyllgor Cyllid gael 8 wythnos i gyflwyno adroddiad ar gynigion y gyllideb amlinellol a phum wythnos i'r pwyllgorau ystyried cynigion manwl y gyllideb. Er nad oes modd galw hyn yn flwyddyn ‘arferol’, rwyf wedi ymrwymo o hyd i sicrhau'r gwaith craffu llawnaf posibl ar ein cynigion gwariant. O ganlyniad, byddai'r amserlen yr wyf wedi'i nodi yn caniatáu 8 wythnos ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft, gan gynnwys 5 wythnos eistedd a 3 wythnos pan nad ydym yn eistedd. Mae hyn yr un fath â’r cyfnod craffu a oedd ar gael i’r Senedd i graffu ar gyllideb 2020-21.

Efallai y bydd datganiad y Canghellor ar 8 Gorffennaf yn rhoi sicrwydd cynnar. Os bydd gennym ddealltwriaeth gadarn yr wythnos nesaf byddwn yn falch o ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i’r pwyllgor busnes cyn toriad yr haf.

Os na fydd hyn yn digwydd, unwaith y cawn sicrwydd, byddwn yn ailedrych ar ein cynlluniau ac yn ysgrifennu eto i gadarnhau ein bwriadau, a byddem yn ceisio cyflwyno ein cynlluniau a chyhoeddi'r gyllideb yn gynharach os bydd amserlen Llywodraeth y DU yn gwneud hyn yn bosibl. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn ddiolchgar o gael cadarnhad y byddech yn cefnogi newid y dyddiadau a nodir uchod yn unol â'r ddarpariaeth a nodir yn y Rheolau Sefydlog, fel y gwnaethoch yn 2019.  Fy mwriad fyddai achub ar y cyfle yn y Pwyllgor Busnes i ofyn am gadarnhad gan fy nghyd-Reolwyr Busnes y byddent yr un mor gefnogol.

Rwyf yn ddiolchgar unwaith eto am ddealltwriaeth y Pwyllgor ac yn gobeithio bod y trefniadau hyn yn dderbyniol, o gofio’r amgylchiadau, sy'n cael eu gyrru gan ffactorau allanol y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol ac sydd â lefel ddigynsail o ansicrwydd.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ein cyf: | NB/CV/mm | Gofynnwch am: | Nick Bennett |
| Eich cyf: | | ☎ | 01656 641152 |
| Dyddiad: | 3 Gorffennaf 2020 | ✉ | Marilyn.morgan@ombwdsmon.cymru |

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

**Trwy Ebost yn unig**
SeneddFinance@senedd.wales

Annwyl Llyr

**Effaith ariannol Covid-19**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Mehefin am effaith ariannol Covid-19. Rwy'n falch o ymateb i'ch ymholiadau a byddaf yn bachu ar y cyfle i roi diweddariad byr ar ein gwaith rhyngweithio â chyrff cyhoeddus ynghyd â'n gwaith ar gwynion.

Tra bod ein swyddfa ar gau, rydym yn parhau i gynnig gwasanaeth i'r cyhoedd ac mae ein holl staff (73 aelod o staff neu 68 aelod o staff sy'n gyfwerth ag amser llawn) yn gweithio'n llwyddiannus o'u cartrefi. Mae buddsoddi mewn TG dros y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â symud tuag at weithio yn ddi-bapur, yn sicr wedi hwyluso'r newid ar fyr rybudd fel bod yr holl staff yn gallu gweithio o'u cartrefi. Pan fydd ein staff yn gweithio, mae llinell uniongyrchol ein ffonau wedi'i chyfeirio at rifau cartref neu symudol ein staff. Mae ein llinellau ffôn rheng flaen wedi'u cyfeirio at beiriant ateb ond mae staff yn dychwelyd yr alwad yn brydlon. (Nid yw hyn yn ddelfrydol, ond pan fyddwn yn y swyddfa, defnyddiwn dechnoleg canolfan alwadau i gyfeirio galwadau yn synhwyrol at Swyddog Gwaith Achos sydd ar gael. Mae hyn yn sicrhau cyfle i staff ddatrys ymholiadau a chwynion yn ogystal ag ateb galwadau. Ar hyn o bryd, edrychwn ar fuddsoddi yn ein systemau teleffoni er mwyn dod dros yr anhawster hwn). Rhoddwyd trefniadau dros dro ar waith gennym i dderbyn ac anfon post copi caled. Rydym hefyd yn ymateb i negeseuon e-bost a chwynion ar-lein yn ôl yr arfer.

Yn yr achosion sy'n caniatáu hynny, rydym yn bwrw ymlaen â chwynion ac ymchwiliadau lle y gallwn. Fodd bynnag, gofynnwn yn gyntaf i fyrddau iechyd, Meddygol Teulu ac awdurdodau lleol a ydynt yn gallu ymgysylltu â'n hymholiadau



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk



All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

a'n hymchwiliadau.  Hefyd, rydym wedi cadw mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar lefel fwy cyffredinol. Y diben oedd sicrhau ein bod yn deall yr effaith arnynt yn sgil y pwysau sy'n eu hwynebu.  Yn ogystal, cysylltom â BMA Cymru Wales i gyfleu'r ffordd y byddwn yn ymgysylltu â Meddygon Teulu. Rydym hefyd wedi rhannu ein bwriad â nhw, sef peidio ag ychwanegu pwysau ychwanegol yn ystod yr amser hwn.

O ran gwaith achos, mae'n rhy gynnar i ni lunio casgliadau oddi wrth ddata cwynion ar gyfer mis Ebrill a Mai. Wedi dweud hynny, nid yw'n syndod bod gostyngiad wedi bod yn nifer y cwynion a gawn.  Mae'r niferoedd ar gyfer dechrau mis Mehefin yn awgrymu bod niferoedd yn cynyddu bellach.  Yr hyn sy'n aneglur yw'r canlynol; ai oedi ar ran cyrff cyhoeddus yn cwblhau'r cam hwnnw o'r broses gwyno yw'r rheswm dros y gostyngiad mewn cwynion newydd? a yw achwynwyr yn oedi rhag cyflwyno cwynion yn ystod y pandemig? a oes gostyngiad gwirioneddol mewn camweinyddu neu gwynion?  Ar hyn o bryd, disgwyliwn mai oedi dros dro yw'r rheswm dros y gostyngiad. Fodd bynnag, disgwyliwn y bydd rhywfaint o ostyngiad mewn cwynion cyffredinol.  Yr hyn sy'n aneglur, fodd bynnag, yw a fydd nifer sylweddol o gwynion yn ymwneud â Covid-19 - er enghraifft, cwynion yn ymwneud â chartrefi gofal, Meddygon Teulu, gofal ysbyty a rhyddhau o'r ysbyty.  Bydd cryn amser cyn i hyn ddod yn glir, ond byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a'r Pwyllgor Cyllid.

Gan ein bod yn ystyried y pwysau sy'n wynebu cyrff cyhoeddus ac yn osgoi rhoi pwysau ychwanegol arnynt pan fyddent yn cael trafferth ymateb, rydym ni, o ganlyniad, yn profi oedi yn ein gwaith achos - yn benodol, wrth wneud ymholiadau ac wrth dderbyn ymatebion, cychwyn neu ddatblygu ymchwiliadau neu gyhoeddi adroddiadau drafft neu adroddiadau terfynol.  Bydd y pethau hyn yn effeithio ar ein perfformiad yr adroddir arno fel y dangosir yn ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

Wrth gwrs, mae Covid-19 hefyd wedi effeithio ar ein gallu i ddefnyddio'r pwerau newydd a ddarperir o dan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.  Cyhoeddom ein hymgynghoriad ymchwilio ar ei Liwt ei Hun cyntaf ychydig cyn cyhoeddi'r cyfnod clo a bu'n rhaid i ni ohirio'r gwaith.  Roeddem wedi trefnu nifer sylweddol o gyrsiau hyfforddi ymdrin â chwynion ar gyfer cyrff cyhoeddus o fis Mawrth ymlaen, ond bu'n rhaid canslo'r holl sesiynau.  Rydym yn gweithio i ddarparu hyfforddiant byw ar-lein, a byddwn yn parhau ag hyn os yw'n gweithio'n dda.  Gall Achwynwyr wneud cwynion llafar o hyd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai ein gwasanaeth ffôn rheng flaen gyfyngedig leihau'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r opsiwn hwn.

I droi at eich cwestiwn am gostau ac arbedion ychwanegol sy'n deillio o Covid-19, rydym yn gwneud arbedion ar ddefnyddio ynni, defnyddio papur, teithio a hyfforddiant.  Rydym yn wynebu anawsterau wrth sicrhau cynghorwyr a chael cyngor mewn modd amserol. O ganlyniad, rydym hefyd yn gwneud arbedion ar gyngor clinigol ar waith achos. Dyma effaith y pwysau ar wasanaethau iechyd a salwch sy'n effeithio ar ein cynghorwyr.  Mae'r arbedion hyn yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan fwy o wariant TG.  Daeth yn amlwg y bydd angen

gweithio o gartref am gryn amser i ddod, boed hynny yn llawn amser neu yn rhannol. Felly, rydym yn symud o fynediad sylfaenol at offer a threfniadau sy’n effeithiol a chyffyrddus fel bod staff yn gallu parhau i weithio yn effeithiol ac yn gynhyrchiol.  Mae hyn wedi golygu rhoi cyfrifiaduron personol, monitorau, bysellfyrddau, llygod ac ati. a rhoi ail fonitorau i’r sawl sy’n dymuno eu cael.  Fel y nodwyd uchod, edrychwn i uwchraddio ein teleffoni i ganiatáu cyfeirio galwadau rhif ffôn ein prif linell yn eu tro at staff sy’n gweithio o’u cartrefi. Hefyd, edrychwn i ganiatáu gwneud galwadau allanol drwy systemau OGCC (gan ganiatáu logio galwadau a chofnodi galwadau) yn hytrach na drwy rifau cartref/symudol personol.

Rydym hefyd yn paratoi’r swyddfa ar gyfer ymarferoldeb dychwelyd i’r gwaith pan fydd yr amser yn iawn gyda phellter cymdeithasol, hylif diheintio dwylo, arwyddion ac ati. Rydym yn ymgymryd ag asesiadau risg er mwyn pennu pa fesurau eraill a fydd yn angenrheidiol.

Mae cryn ansicrwydd. Mae rhai o’r rhain yn ymwneud â Covid-19 a phryd y bydd dychwelyd o ryw fath i’r swyddfa yn bosibl.  Mae eraill yn anghysylltiedig â Covid-19: Ein dyfarniad cyflog staff yw'r un y cytunwyd arno ar gyfer staff llywodraeth leol. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad cyflog ar gyfer Ebrill 2020 wedi'i gytuno eto. Mae'r Undebau Llafur wedi gwrthod 2.75% ond dim ond 2% y gwnaethom ei ganiatáu yn ein cyllideb; Fel y cofiwch efallai, mae disgwyl i'n rhent gael ei adolygu eleni, ac nid ydym yn gwybod beth fydd canlyniad yr adolygiad hwnnw. Rydym yn ymwybodol ein bod wedi negodi rhent cystadleuol iawn (a gostyngiad gwirioneddol mewn rhent) bum mlynedd yn ôl. Rydym hefyd yn ymwybodol fod marchnad rhenti wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf a bod Covid-19 hefyd yn debygol o gael rhywfaint o effaith ar renti swyddfa.

Fel y mae pethau ar hyn o bryd, rydym yn rhagamcanu tanwariant o thua £75k am y flwyddyn.  Mae yna lawer o ansicrwydd a dim ond deufis i mewn i’r flwyddyn yr ydym ni, felly mae angen trin y ffigwr hwn gyda phwyll. Mae’r siart isod yn cynnig cynrychiolaeth raffigol o feysydd gwariant ychwanegol (mewn coch) a llai o wariant (mewn gwyrdd).




Gobeithiaf fod yr ymateb hwn yn ddefnyddiol.  Os yw unrhyw beth yn aneglur, byddwn yn fodlon egluro ymhellach a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.  Byddaf yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod eich gwaith craffu ar ein cyflwyniad amcangyfrifon ar gyfer 2021/22.

Yn gywir



**Nick Bennett**
Yr Ombwdsmon

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

7 Gorffennaf 2020

Annwyl Llyr

**Goblygiadau ariannol pandemig COVID-19**

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 4 Mehefin 2020 ac ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid o'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae eich llythyr yn gofyn i'r Comisiwn gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor gan roi manylion y canlynol:

- yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar gyllid eleni, gan gynnwys unrhyw arbedion a chostau ychwanegol, gan gynnwys dadansoddiad llawn;
- cynnwys gwybodaeth am yr effaith ar y cyllid a ddarperir i'r Comisiwn ar gyfer ei weithgareddau ei hun ac i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Rwyf wedi darparu'r wybodaeth hon yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Gobeithio ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi.

Yn ôl yr arfer, cofiwch roi gwybod os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach.

Yn gywir

Suzy Davies

Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

**Atodiad 1**

**Cyllid a ddarperir i'r Comisiwn ar gyfer ei weithgareddau ei hun**

Mae'r nodau a'r egwyddorion canlynol yn arwain y gwaith cynllunio ar gyfer dod allan o'r cyfyngiadau symud a gall arwain at gostau neu arbedion ychwanegol i'r Comisiwn.

**Nodau:**

1. Helpu i gyflawni busnes y Senedd, ym mha bynnag ffurf dros dro yn ôl yr angen, wrth inni ddod allan o'r cyfyngiadau symud.
2. Cynnal cynllun graddol wedi'i gynllunio ar gyfer dychwelyd i'r ystâd (RTE), gan gynnwys cynllunio ar gyfer ystod o fodelau ar gyfer busnes y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau ar yr ystâd.
3. Sicrhau y gall y Senedd gynnal busnes cynyddol a mwy amrywiol a ddisgwylir gan raglen ddeddfwriaethol y llywodraeth a threfniadau pontio'r UE, trwy'r hydref ac i'r flwyddyn newydd.
4. Helpu gyda gwaith cynllunio ar gyfer cyflawni busnes yn y dyfodol, defnyddio'r Ystâd a hyblygrwydd o ran trefniadau'r gweithlu.

**Egwyddorion:**

Bydd y Comisiwn yn defnyddio'r egwyddorion canlynol i lywio cynlluniau a gwneud penderfyniadau. Wrth ddychwelyd yn raddol i'r ystâd, bydd diogelwch, iechyd a lles staff, Aelodau ac ymwelwyr yn hollbwysig.

Byddwn yn:

- Gweithio i leihau'r risg i Aelodau, staff, ymwelwyr a busnes y Senedd drwy gynllunio ymlaen llaw.
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â staff, Aelodau ac ymwelwyr yn glir ac yn agored wrth i'r trefniadau fynd rhagddynt.
- Staff i barhau i weithio gartref fel arfer nes y bydd yn ddiogel ac er budd iechyd meddwl da unigolion i wneud fel arall. Pan fydd yn rhaid i staff ddychwelyd i'r ystâd am unrhyw gyfnod, byddwn yn eu paratoi ymlaen llaw ac yn eu briffio ar gyfer dychwelyd i'r ystâd.
- Paratoi a briffio Aelodau a'u staff os bydd rhaid iddynt ddod i'r ystâd am unrhyw gyfnod.
- Gweithio gyda'r holl randdeiliaid ar yr ystâd i:

    o Agor rhannau o'r ystâd dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn ddiogel, a dim ond cyhyd ag y bo angen.
    o Cadw niferoedd ar yr ystâd i'r lleiafswm hanfodol, nes ei bod yn ddiogel i wneud fel arall.
    o Annog dull "dewch, cwrdd, ewch" i ddefnyddio rhannau agored o'r ystâd, nes ei bod yn ddiogel gwneud fel arall.

Mae ymateb i ofynion y cyfnod heriol hwn, yn unol â'r nodau a'r egwyddorion hyn, o ran mynd i mewn a llacio'r cyfyngiadau symud yn raddol wedi creu costau ac arbedion ychwanegol i'r Comisiwn. Nodir y rhain isod:

**Effaith ar y Gronfa Prosiect**

Roedd Cyllideb 2020-21 yn amlygu bod £1.515m o wariant i'w ariannu o Gronfa Prosiect y Comisiwn. Mae'r rhagolwg gwaith cyfredol yn dangos gwariant o £1.795m, fel y dangosir yn y tabl canlynol. Yn ôl yr arfer, mae cynigion yn cael eu haddasu i reoli meysydd lle mae gwariant posibl yn uwch neu'n is na'r amcangyfrif.

**Tabl 1 – Effaith ar y Gronfa Prosiect**

| | Cyllideb | Y Rhagolwg Diweddaraf |
|---|---|---|
| **Cronfa Prosiect 2020-21** | **Swm £'000** | **Swm £'000** |
| Meddalwedd Legislative Workbench | £600 | £600 |
| Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) Comisiwn y Cynulliad – Newid Enw | £45 | £45 |
| Archifo | £65 | £65 |
| System y Cyfarfod Llawn | £50 | £50 |
| Gwefan | £80 | £80 |
| Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth | £250 | £200 |
| Ffenestri newydd – adolygiad dichonoldeb | £50 | £50 |
| Drysau tân newydd | £80 | £80 |
| Diogelwch Ffisegol – prosiect oedi – y Senedd | £225 | £233 |
| Diogelwch Ffisegol – prosiect oedi – Tŷ Hywel | £70 | £270 |
| Gosod Drysau Tân | | £92 |
| Datblygiad Tech ar gyfer y Cyfarfod Llawn Hybrid | | £30 |
| **Cyfanswm** | **£1,515** | **£1,795** |

I grynhoi, y prif feysydd y mae COVID-19 yn debygol o effeithio arnyn nhw yw:

- Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth – gostyngiad o £50k
- Diogelwch ffisegol (prosiect oedi) – cynnydd o £208k, gyda gwariant yn cael ei ddwyn ymlaen o 2021-22
- Gohirio gweithgaredd 2019-20 (gosod drysau tân) – cynnydd o £92k yn 2021-22
- Gofynion ychwanegol COVID-19 ar gyfer y Cyfarfod Llawn – cynnydd o £30k

Mae hwn yn gynnydd cyffredinol o £280k.

Ffigurau dros dro yw'r rhain ar hyn o bryd ac maent yn debygol o newid wrth i'r flwyddyn ariannol fynd yn ei blaen ac wrth fynd i'r afael â gofynion pellach. Mae'r Comisiwn wrthi'n ystyried a ellir gwneud arbedion o'r Gronfa Prosiect.

**Effaith ar y Ddarpariaeth Gwyliau Blynyddol**

Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19 - Buddion Gweithwyr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gronni am gost unrhyw hawl i wyliau nas defnyddiwyd a gronnwyd gan staff y Comisiwn ar 31 Mawrth ym mhob blwyddyn ariannol.

Y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2020 oedd £777,000. Mae hyn yn cynrychioli 6.9 diwrnod o wyliau blynyddol ar gyfartaledd a 2 ddiwrnod o wyliau hyblyg a gronnwyd gan bob aelod o staff y Comisiwn.

Mae'r newid yn y ddarpariaeth hon o flwyddyn i flwyddyn (cynnydd wrth i gyflog godi fel arfer) yn cael ei godi ar Ddatganiad Cyflenwi'r Comisiwn. Y cynnydd yn 2019-20 oedd £34,000 o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfraniad pensiwn yn 2019-20, gan gynyddu "cost" diwrnod o wyliau.

Gallai effaith diwrnod ychwanegol o absenoldeb yn cael ei gronni gan bob aelod o staff, ac effaith dyfarniad cyflog 2019-20, arwain at gronni £880,000 ar 31 Mawrth 2021, sef cynnydd o £103,000. Pennwyd cyllideb o £25,000 ar gyfer 2020-21.

Os bydd nifer y diwrnodau o wyliau a gronnir erbyn 31 Mawrth 2021 yn cynyddu mwy na diwrnod, gallai'r effaith ar alldro'r Comisiwn fod yn sylweddol. Mae effaith COVID-19 wedi golygu bod rhai aelodau o staff y Comisiwn wedi gorfod addasu eu patrymau gwaith yn sylweddol er mwyn ymateb i'r gofynion ar y Comisiwn. Mae hyn wedi arwain at rai staff yn methu â chymryd gwyliau blynyddol, ac mae hyn yn cael ei drafod yn ystod 2020-21 er mwyn sicrhau lles staff.

**Effaith ar Gyllidebau Maes Gwasanaeth – gwariant cyffredinol**

Mae effaith pandemig COVID-19 ar wariant cyffredinol y Comisiwn o ddydd i ddydd yn amrywiol ac mae'r wybodaeth a ddarperir isod yn arwydd cynnar o ble mae angen gwariant ychwanegol.

Darperir arwydd o'r mathau o wariant hefyd lle y gellir sicrhau arbedion. Nid yw ymateb llawn a chynhwysfawr yn bosibl ar hyn o bryd, gan fod yr effaith ar adnoddau yn dal i barhau.

**Tabl 2 – Gwariant ychwanegol y Comisiwn**

| **Gwariant, Ebrill i Fehefin 2020** | **£** |
|---|---|
| Ystadau a Chyfleusterau – Sgriniau, Arwyddion, Glanweithydd ac ati. | 17,000 |
| TGCh – Trwyddedau Zoom, gliniaduron, sgriniau, allweddellau ac ati. | 51,000 |
| Diogelwch – PPE | 2,000 |
| | |
| **Cyfanswm** | **70,000** |

Yn ogystal, gwariwyd £16,000 hefyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2019-20) ar offer TGCh ychwanegol.

**Tabl 3 – Costau ac arbedion posibl eraill ar gyfer Cyllidebau Gwasanaeth**

| **Gwariant/colledion ychwanegol (amcangyfrif) Ebrill 2020 i Fawrth 2021** | **£** |
|---|---|
| Lwfans gweithio gartref/taliadau disgresiynol | I'w gyhoeddi |
| Asesiadau DSE cartref | I'w gyhoeddi |
| Desgiau, cadeiriau ac ati ychwanegol yn dilyn asesiadau DSE cartref | I'w gyhoeddi |
| Gostyngiad mewn incwm arlwyo | I'w gyhoeddi |
| Gostyngiad yn incwm maes parcio Tŷ Hywel | I'w gyhoeddi |
| Taliadau argraffu, postio ac anfon | I'w gyhoeddi |
| | |
| **Cyfanswm** | **I'w gyhoeddi** |

| **Arbedion ychwanegol (amcangyfrif) Ebrill 2020 i Fawrth 2021** | **£** |
|---|---|
| Llai o gostau cyfleustodau | I'w gyhoeddi |
| Costau maes parcio aml-lawr | I'w gyhoeddi |
| Papurau newydd | I'w gyhoeddi |
| Costau Teithio | I'w gyhoeddi |
| Canslo/gohirio digwyddiadau a hyfforddiant | I'w gyhoeddi |
| Canslo digwyddiadau Senedd Ieuenctid a Pleidleisio@16 | 13,000 |
| | |
| **Cyfanswm** | **I'w gyhoeddi** |

**Effaith ar y cyllid a ddarperir i'r Comisiwn i gyflawni rhwymedigaethau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar Dâl a Threuliau Aelodau.**

Mae effaith pandemig COVID-19 ar Gyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau unwaith eto yn amrywiol ac mae'r wybodaeth a ddarperir isod yn arwydd cynnar o ble mae angen gwariant ychwanegol.

Darperir arwydd o'r mathau o wariant hefyd lle y gellir sicrhau arbedion. Nid yw ymateb llawn a chynhwysfawr yn bosibl ar hyn o bryd, gan fod yr effaith ar adnoddau yn dal i barhau. Fel y mae'r Pwyllgor Cyllid yn ymwybodol, mae'r elfen hon o'r gyllideb gyffredinol y tu hwnt i reolaeth y Comisiwn.

| **Gwariant, Ebrill i Fehefin 2020** | **£** |
|---|---|
| TGCh – Argraffwyr, Gliniaduron ac ati. | 13,000 |
| Offer swyddfa a sefydlu a PPE | 2,000 |
| Hysbysebion a thaflenni | 5,000 |
| Ailgyfeirio Post | 1,000 |
| Ymchwil | 1,000 |
| Lwfans Gweithio o Gartref | 5,000 |
| **Cyfanswm** | **27,000** |

| **Gwariant/colledion ychwanegol (amcangyfrif) Ebrill 2020 i Fawrth 2021** | **£** |
|---|---|
| Lwfans gweithio gartref/taliadau disgresiynol | I'w gyhoeddi |
| Asesiadau DSE cartref | I'w gyhoeddi |
| Desgiau, cadeiriau ac ati ychwanegol yn dilyn asesiadau DSE cartref | I'w gyhoeddi |
| Ailgyfeirio post | I'w gyhoeddi |
| Sgriniau perspex ar gyfer swyddfeydd etholaethol | I'w gyhoeddi |
| Glanhau trylwyr ychwanegol ar gyfer swyddfeydd | I'w gyhoeddi |
| Arwyddion newydd | I'w gyhoeddi |
| **Cyfanswm** | **I'w gyhoeddi** |

| **Arbedion ychwanegol (amcangyfrif) Ebrill 2020 i Fawrth 2021** | **£** |
|---|---|
| Llai o gostau teithio | I'w gyhoeddi |
| **Cyfanswm** | **I'w gyhoeddi** |

**Cofnod penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau: Covid-19**

Mae'r cofnod penderfyniadau isod yn amlinellu'r penderfyniadau gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gymorth sydd ar gael i Aelodau a staff cymorth yn ystod pandemig Covid-19.

| Dyddiad y penderfyniad | Manylion | Goblygiad cost Oes/Na |
|---|---|---|
| 24 Mawrth | Llacio gofynion adrodd i gael mynediad at Lwfans Staff Dros Dro. Bydd hyn yn caniatáu i Aelodau gyflogi staff wrth gefn dros dro, pan fydd angen, i sicrhau parhad busnes. | Oes – os caiff ei ddefnyddio. |
| 31 Mawrth | Penderfyniad eithriadol i oedi cyn cymhwyso mynegai ASHE o 4.4 y cant i gyflogau Aelodau rhwng 1 Ebrill a 1 Hydref 2020 | Oes – arbed |
| 2 Ebrill | Lwfans gweithiwr cartref ar gyfer staff cymorth, taliad o hyd at £26 y mis i bob aelod o staff (i'w adolygu ar ôl tri mis) | Oes – yn ôl disgresiwn yr Aelodau i ganiatáu i staff hawlio. |
| | Cyhoeddi canllawiau ar opsiynau gweithio hyblyg i Aelodau ar gyfer eu staff<br><br>Cytunwyd i gyflwyno polisi absenoldeb arbennig dros dro ar gyfer cyfrifoldebau gofalu oherwydd bod darpariaethau gofalu arferol wedi dod i ben, neu oherwydd y gofyniad i ofalu am aelodau'r teulu sy'n sâl.<br><br>Gellid defnyddio absenoldeb arbennig hefyd ar gyfer anghenion gwirfoddoli sy'n deillio o'r pandemig (hyd at 5 diwrnod o wyliau arbennig). | Nac oes |

| | | |
|---|---|---|
| | Byddai unrhyw absenoldeb arbennig â thâl a roddir gan yr Aelod sy'n cyflogi yn ddarostyngedig i'r rheolau arferol ynghylch Defnyddio Adnoddau'r Cynulliad. | |
| 21 Mai | Annog ystyried cynnal asesiadau DSE ar gyfer staff cymorth sy'n gweithio gartref | Oes – yn dibynnu ar sut caiff asesiadau DSE yn cael eu cyflwyno a sut y telir am anghenion newydd. Mae'r Bwrdd yn ystyried y mater. |
| 26 Mehefin | Lwfans gweithiwr cartref ar gyfer staff cymorth, taliad o hyd at £26 y mis i bob aelod o staff (i barhau nes bod Llywodraeth Cymru yn llacio cyfyngiadau ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn allweddol). | Oes – yn ôl disgresiwn yr Aelodau i ganiatáu i staff hawlio. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
02920 320500
info@audit.wales
www.archwilio.cymru / www.audit.wales

Mr Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Drwy'r e-bost:**
**SeneddFinance@Senedd.wales**

**Cyfeirnod:** IE/20006/AS/200/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 7 Gorffennaf 2020

Annwyl Llŷr

## Goblygiadau ariannol pandemig Covid-19

Diolch am eich ymateb i'n llythyr, dyddiedig 5 Mai 2020, a oedd yn nodi ein syniadau cychwynnol ynglŷn ag effeithiau posibl argyfwng Covid-19 ar gyflawni ein gwaith ac ar y sefyllfa ariannol ar gyfer Archwilio Cymru.

Byddwch yn deall ei bod yn anodd rhagweld yn fanwl gywir beth fydd y goblygiadau ariannol llawn ar gyfer Archwilio Cymru o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyfyngiadau yn y dyfodol ac effaith unrhyw donnau pellach o'r feirws. Mae'r llythyr hwn yn nodi ein hamcangyfrifon gorau ar hyn o bryd, ond mae'n ddiamau y byddant yn newid wrth inni symud drwy'r flwyddyn ac, yn benodol, wrth i'r darlun o'n hincwm o ffioedd, ddod yn gliriach. Byddem yn falch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a gallem wneud hynny, er enghraifft, yn yr hydref pan fyddwn yn cyflwyno ein Hamcangyfrif ar gyfer 2021-22.

## Ein rhaglen waith a'n hincwm ffioedd

Ers dechrau'r cyfnod clo, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r cyrff a archwilir gennym i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o gyflawni ein gwaith archwilio ariannol statudol tra'n gweithio'n gyfan gwbl o bell. Mae llawer o fanteision i weithio o bell, ond mae ymhell o fod yn berffaith ac rydym yn cyflym ddatblygu darlun cliriach o'i fanteision a'i anfanteision ar gyfer ein math ni o waith. Hoffem dalu teyrnged i gydweithwyr ar draws y gwasanaeth cyhoeddus ac i staff Archwilio Cymru sydd wedi cydweithio'n rhagorol yn yr amgylchedd heriol hwn. Ein disgwyliad ar hyn o bryd yw y byddwn yn cyflawni'r holl waith o archwilio cyfrifon 2019-20 oedd wedi'i gynllunio ar gyfer eleni, er bod hynny i amserlen ychydig yn wahanol. Ein profiad hyd yn hyn yw bod archwiliadau cyfrifon yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl yn gyffredinol a chaiff hyn effaith ganlyniadol ar gynllunio a gwaith rhagarweiniol ar gyfer 2020-21 yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mewn ymateb i'r argyfwng, rydym wedi ail-lunio ein rhaglen waith archwilio perfformiad yn sylweddol. I ddechrau, fe wnaethom atal gwaith dros dro er mwyn rhoi amser a lle i gyrff cyhoeddus ganolbwyntio ar eu hymatebion uniongyrchol i'r sefyllfa. Cafodd ein penderfyniad ei groesawu ar y pryd gan yr Ysgrifennydd Parhaol, a'i werthfawrogi'n fawr gan Brif Weithredwyr a'u huwch dimau. Rydym bellach yn ail-ymgysylltu â'r cyrff a archwilir gennym, gan edrych ar y gwaith a all ychwanegu'r gwerth mwyaf o dan yr amgylchiadau presennol, i gefnogi gwaith craffu effeithiol a hefyd i roi mewnwelediad i'r ymateb uniongyrchol i argyfwng Covid-19, cynllunio adferiad a'r effeithiau tymor hwy ar y gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru.

Fel sefydliad, rydym wedi rhoi'r flaenoriaeth i les y staff, yn enwedig y staff hynny sydd â chyfrifoldebau gofalu, ac rydym wedi cydnabod nad yw rhai o'n staff wedi gallu bod mor gynhyrchiol ag y byddem yn ei ddisgwyl fel arfer. Mae hyn, yn anochel, wedi lleihau ein capasiti cyffredinol ac felly ein gallu i dynnu incwm ffioedd i lawr.

Mae canlyniad y cyfuniad hwn o ffactorau yn golygu ei bod yn annhebygol iawn y byddwn yn gallu cydnabod incwm ffioedd arfaethedig y flwyddyn lawn ar gyfer 2020-21. Yn seiliedig ar ein rhagolygon diweddaraf, amcangyfrifwn y bydd yr effaith ganlyniadol ar incwm ffioedd ar gyfer 2020-21 tua £600,000 yn llai na'r hyn a ragwelwyd gennym pan gymeradwywyd yr Amcangyfrif yr hydref diwethaf. Fodd bynnag, rhaid i ni bwysleisio bod y ffigur hwn yn agored i rywfaint o amrywiad yn y naill gyfeiriad neu'r llall ac felly rydym yn ei adolygu'n gyson.

## Arbedion Cost

Byddwch yn cofio bod yr Amcangyfrif eisoes yn ddibynnol ar sicrhau arbedion o ryw £1.2 miliwn yn ystod y flwyddyn drwy reoli swyddi gwag a thrwy arbedion cost eraill. Mae'n dda gennym nodi bod yr arbedion oedd yn gysylltiedig â rhaglen Ymadael Gwirfoddol 2019-20 a'n penderfyniad i gadw pob swydd wag tan fis Hydref 2020 o leiaf, ynghyd ag adolygiad manwl o'r holl feysydd cyllideb nad ydynt yn gysylltiedig â'r staff, yn golygu ein bod eisoes wedi gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd y targed hwn.

Byddwn yn gwneud arbedion ar deithio a chynhaliaeth eleni, gan fod pob aelod o staff wedi bod yn gweithio gartref ers diwedd mis Mawrth. Disgwyliwn i hyn barhau ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff am ran helaeth o weddill y flwyddyn galendr hon. Nid ydym yn bwriadu dychwelyd i'n swyddfeydd tan 1 Medi ar y cynharaf a hynny ddim ond ar sail blaenoriaeth ac yn raddol. Bydd hyn yn amlwg yn seiliedig ar y cyngor a dderbyniwn gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r rhagolygon presennol ar gyfer gostyngiadau o £230,000 o leiaf mewn costau teithio a chynhaliaeth, a gellid cael gostyngiad pellach hyd yn oed, po hwyaf y parheir i weithio o bell. Meysydd gwariant eraill yr ydym wedi'u lleihau yw:

- digwyddiadau datblygu, recriwtio a hyfforddi staff - £95,000
- swyddfeydd - £50,000

- meysydd cyllideb eraill fel cyfieithu, argraffu a deunydd ysgrifennu - £30,000

Gellwch fod yn sicr ein bod yn parhau i archwilio pob llwybr am arbedion pellach yn ystod y flwyddyn, er mwyn gwrthbwyso ein hincwm llai o ffioedd, ond mae mwyafrif llethol ein gwariant ar staff a chostau sefydlog/lled sefydlog eraill, sy'n golygu, efallai, na fydd yn bosibl gostwng ein costau lawer iawn pellach yn y tymor byr.

## Ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru

O gymryd yr uchod i gyd i ystyriaeth, rydym yn amcangyfrif ar hyn o bryd, os bydd angen inni ofyn am arian ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru, bod y swm yn annhebygol o fod yn fwy na £0.5 miliwn. Rydym, wrth gwrs, yn gwneud popeth a allwn i leihau unrhyw alw ychwanegol ar y Gronfa a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn yr hydref, gan gyflwyno cais Amcangyfrif Atodol os byddwn yn ei chael yn hanfodol gwneud hynny.

Yn gywir



**ISOBEL EVERETT**
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

UK Government
Llywodraeth y DU

154SOS 20

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

**Llyr Gruffydd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

9 Ebrill 2020

Annwyl Llyr,

**Covid-19: Cefnogaeth i Gymru**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 23 Mawrth, yn gofyn am ddiweddariad ar ymateb Llywodraeth y DU i'r pandemig COVID-19.

Mae gennym gynllun i ddelio ag effaith y pandemig coronafeirws, sy'n seiliedig ar arbenigedd gwyddonwyr blaenllaw y byd. Ein prif nod yw diogelu pobl rhag y feirws hwn, yn enwedig amddiffyn y GIG a'r sawl sydd fwyaf bregus trwy ddilyn pedwar cam, sef Ynysu, Arafu, Ymchwilio, a Lliniaru.

Rwyf wedi amgáu manylion am ymateb Llywodraeth y DU i'r feirws Covid-19, yn cynnwys manylion am y cymorth sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru. Bydd gwybodaeth lawn am y cyllid canlyniadol Barnett fydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn 2020/21 yn cael ei chyhoeddi trwy'r broses Prif Amcangyfrifon, a bydd data ar dryloywder Grantiau Bloc yn cael ei gyhoeddi yn y gwanwyn.

Gofynnaf os y gallwn ddelio â'ch cais am dystiolaeth lafar ar ddyddiad diweddarach, ac edrychaf ymlaen at gydweithio â'ch Pwyllgor yn y dyfodol.

Cofion gorau,

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr    1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
London | Llundain    Cardiff | Caerdydd
SW1A 2NP    CF10 4DQ
www.gov.uk/wales    www.gov.uk/cymru

UK Government
Llywodraeth y DU

154SOS 20

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

**Tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar gyfer Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Cyllid i Gefnogi Cymru yn Ystod y Pandemig Covid-19

Mae Llywodraeth y DU wedi gweithredu'n gyflym i roi pecyn cymorth digynsail mewn lle i helpu busnesau ac unigolion yng Nghymru, a ledled y DU, yn ystod y pandemig Covid-19.

Mae Prif Weinidog y DU wedi dweud bydd Llywodraeth y DU yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i ennill y frwydr yn erbyn y pandemig. Rydym yn benderfynol ein bod am ddiogelu bywydau a diogelu bywoliaethau. Yn ystod y cyfnod cythryblus hwn, mae Prif Weinidog y DU wedi dweud y byddwn yn cymryd pob cam y gallwn i sicrhau bod busnesau yn cael eu diogelu, bod yr economi yn parhau i fod yn gryf, a bod neb, ni waeth os ydynt yn gyflogedig ynteu'n hunangyflogedig, yn cael eu cosbi am wneud y peth iawn.

Mae'r mwyafrif o fesurau'r Llywodraeth i gefnogi busnesau yn weithredol ledled y DU, yn cynnwys darparu gwerth £330 biliwn o fenthyciadau busnes a gwarantau busnes, talu 80% o gyflogau am gyfnod o dri mis ar gyfer gweithwyr sydd wedi cymryd absenoldeb seibiant, gohirio taliadau TAW a thalu trethi, darparu cefnogaeth i unigolion hunangyflogedig a thalu am gostau tâl salwch statudol.

Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r prosesau ar gyfer tâl salwch statudol, credyd cynhwysol, a'r lwfans cyflogaeth a chymorth, i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y system gymorth yn gyflymach ac yn haws, ac rydym wedi cymryd camau brys pellach i sicrhau bod gan fusnesau fynediad at arian i dalu rhent, cyflogau neu gyflenwyr.

Mae Prif Weinidog y DU wedi rhoi cyfarwyddiadau pwysig i orfodi cadw pellter cymdeithasol i leihau lledaeniad y feirws. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn cau'r holl siopau sy'n gwerthu nwyddau dianghenraid, yn cynnwys siopau dillad a siopau nwyddau electronig, i gefnogi'r ymdrech hollbwysig hwn i drechu'r feirws. Mae arweiniad cynhwysfawr wedi cael ei gyhoeddi ynghylch aros gartref a chadw i ffwrdd o bobl eraill, yn cynnwys cyngor ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn gallu gweithio o adref.

Bydd tenantiaid masnachol nad ydynt yn gallu talu eu rhent o ganlyniad i'r coronafeirws yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu troi allan. Bydd mesurau, sy'n rhan o'r Ddeddf Coronafeirws brys yn golygu na fydd unrhyw fusnes yn cael ei droi allan o'i eiddo os ydynt yn methu taliad yn y tri mis nesaf.

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr 1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
London | Llundain Cardiff | Caerdydd
SW1A 2NP CF10 4DQ
www.gov.uk/wales www.gov.uk/cymru

UK Government
Llywodraeth y DU
154SOS 20

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Mae Tŷ'r Cwmnïau yn cynnig estyniad o dri mis i fusnesau sydd wedi'u heffeithio gan y coronafeirws i roi amser iddynt ffeilio eu cyfrifon.

Mae  Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi cefnogaeth ddigynsail ar gyfer busnesau a gweithwyr i'w diogelu rhag yr argyfwng economaidd presennol, yn cynnwys:

- Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, lle bydd cyflogwyr bychain a chyflogwyr mawr yn gymwys i wneud cais am grant llywodraeth lle bo 80% o gyflogau gweithwyr yn cael eu talu i fyny at uchafswm o £2,500 y mis. Bydd y cynllun yn cael ei ôl-ddyddio i'r 1af o Fawrth a bydd ar gael am o leiaf 3 mis, gyda'r grantiau cyntaf yn cael eu talu o fewn wythnosau.

- Gohirio taliadau TAW gan gwmnïoedd ar gyfer y chwarter ariannol nesaf, tan ddiwedd mis Mehefin, sy'n cyfrannu £30 biliwn i'r economi.

- Gwerth £330 biliwn o fenthyciadau i gefnogi busnesau sydd wedi'u cefnogi a'u gwarantu gan y llywodraeth.

- Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig a fydd yn helpu gweithwyr llawrydd cymwys i gael grantiau gwerth hyd at £2,500 y mis am o leiaf tri mis.

Mae'r lefel o gydweithio rhwng yr holl bartïon gwleidyddol a'r pedair llywodraeth yn y DU wedi bod yn anhygoel wrth inni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r argyfwng hwn. Dyma'r her fwyaf mae'r DU wedi'i hwynebu yn ein hoes ni, ac mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r holl Weinyddiaethau Datganoledig yn gweithio gyda'i gilydd yn esmwyth i ddarparu'r arweinyddiaeth y mae'r wlad hon ei hangen ac yn ei disgwyl. Rydym wedi gweithredu ar gyflymder digynsail oherwydd y gwyddwn bod angen cymorth ar frys ar fusnesau, cymunedau ac unigolion fel ei gilydd.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU nifer o raglenni a oedd yn berthnasol i Loegr yn unig yng Nghyllideb 2020 i ymateb i'r pandemig COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cronfa caledi ariannol i awdurdodau lleol;
- Cynllun rhyddhau ardrethi busnes;
- Grantiau o £3,000 ar gyfer busnesau bychain; a
- Cronfa ymateb gwerth £5 miliwn i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus.

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr    1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
London | Llundain    Cardiff | Caerdydd
SW1A 2NP    CF10 4DQ
www.gov.uk/wales    www.gov.uk/cymru

UK Government
Llywodraeth y DU
154SOS 20

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS**
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 0292 092 4216
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Roedd y gronfa ymateb i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys ariannu:

- Gwell rhyddhau o'r GIG/gwaharddiadau o brawf modd;
- Pecyn cymorth COVID ar gyfer awdurdodau lleol;
- Prynu capasiti gofal iechyd yn y Sector Breifat; a
- Gwarchod, yn cynnwys pecynnau bwyd ac elfennau o’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn dilyn cyhoeddiad y Gyllideb, mae nifer o raglenni ac ychwanegiadau i'r uchod wedi cael eu cyhoeddi. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Grantiau cefnogi busnes estynedig (£10,000); a
- Cynllun rhyddhau ardrethi busnes estynedig, yn cynnwys ar gyfer methrinfeydd a busnesau manwerthu nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhai hanfodol.

O ganlyniad i'r uchod, mae Llywodraeth y DU wedi darparu dros £5.3 biliwn i'r gweinyddiaethau datganoledig trwy’r broses Barnett yng nghyswllt COVID-19, yn cynnwys £2.73 biliwn ar gyfer Llywodraeth Yr Alban, £1.65 biliwn ar gyfer Llywodraeth Cymru a £0.92 biliwn ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Bydd gwybodaeth bellach am y cyllid canlyniadol Barnett a ddarperir i Lywodraeth Cymru yn 2020/21 yn cael ei chyhoeddi trwy’r broses Prif Amcangyfrifon a bydd Tryloywder Grantiau Bloc yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y gwanwyn.

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr  1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
London | Llundain  Cardiff | Caerdydd
SW1A 2NP  CF10 4DQ
www.gov.uk/wales  www.gov.uk/cymru

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon